

Cynnig profiadau a chyfleoedd hamdden a dysgu gydol oes yn yr awyr agored sy'n gynaliadwy ac yn gyfrifol er mwyn creu Cymru gydnerth ac iach.

Wrth gwrs mae Cymru yn fan hamdden a dysgu awyr agored blaenllaw gyda'r Cymry ac ymwelwyr yn ogystal yn ymfalchïo yn ei mannau naturiol ac unigryw gwyrdd, glas a thanddaearol. Gyda'i thirwedd, cefn gwlad, yr arfordir, cyrsiau dŵr, planhigion ac anifeiliaid, diwylliant a threftadaeth, cymunedau sy'n estyn croeso cynnes a gweithlu medrus dros ben yn cyfuno i ddarparu cynnig hamdden awyr agored enwog Cymru.



Outdoor Alliance Wales Manifesto 2026



Cynghrair Awyr Agored Cymru Manifesto 2026

Delivering sustainable and responsible outdoor recreation and lifelong learning experiences and opportunities for a resilient and healthy Wales.

Wales is a world-class outdoor recreation and learning destination. Its unique green, blue and underground natural spaces are valued by the people of Wales and visitors alike. Its landscape, countryside, coastline, water courses, flora and fauna, culture and heritage, welcoming communities and highly skilled workforce combine to deliver Wales' renowned outdoor recreation offer.



Cynghrair Awyr Agored Cymru

Outdoor Alliance Wales

Manifffesto/Manifesto 2026

Cynnwys/Contents

Am Gynghrair Awyr Agored Cymru / About Outdoor Alliance Wales	2
'Rydym yn credu' / 'We believe'	3
Yr Amgylchedd / Environment	4
Addysg a Dysgu Gydol Oes / Education & Lifelong Learning	6
Iechyd a Lles / Health & Wellbeing	8
Yr Economi a'r Gymuned / Economy & Community	10
Mynediad / Access	12
Hamdden Awyr Agored Cyfrifol / Responsible Recreation	14
Pwy yw Cynghrair Awyr Agored Cymru / Who is Outdoor Alliance Wales.....	16
Pam mae Cymru angen Cynghrair Awyr Agored Cymru / Why Wales needs Outdoor Alliance Wales	17
Aelodau Cynghrair Awyr Agored Cymru / Outdoor Alliance Wales Members	18
Cyfeirnodau / References	18



Cynghrair Awyr Agored Cymru ydy'r glymblaid unigol sy'n cynrychioli'r gwerthoedd ar y cyd ar gyfer sector hamdden, dysgu a gweithgareddau antur awyr agored Cymru gyfan. Mae mudiadau aelod Cynghrair Awyr Agored Cymru'n gweithredu'n annibynnol ond maen nhw hefyd yn rhannu eu gwerthoedd cyffredin mewn ffordd sy'n cyfrannu'n strategol at ddatblygiad economaidd a chymdeithasol; iechyd a lles; cydlyniant cymunedol; iaith, diwylliant a threftadaeth; addysg a dysgu gydol oes; diogelu a datblygu gwledig ac amgylcheddol; cyflogaeth, gwirfoddoli a hyfforddiant; yr economi twristiaeth ac ymwelwyr; chwaraeon a gweithgareddau cystadleuol a hamdden Cymru.

Mae natur amrywiol cymuned awyr agored ddiwylliannol fyd-eang Cymru a'i gweithlu yn parhau i esblygu'n chwim, gan addasu i'r anghenion newidiol sydd ynghlwm â gofynion a disgwyliadau'r 21ain ganrif. Yn y pedair blynedd diwethaf, mae pwysigrwydd a pherthnasedd Cynghrair Awyr Agored Cymru wedi'i amlygu'n sylweddol, gyda rhyng-gysylltiad y sectorau y mae'r gymuned awyr agored yn effeithio arnyn nhw yn ymddangos yn amlwg dros ben.



Outdoor Alliance Wales is the single coalition representing the shared values for the whole of Wales's outdoor recreation, learning and adventure activity sector. The member organisations of Outdoor Alliance Wales function independently but also share their common values in a way that makes a strategic contribution to Wales': economic & social development; health & well-being; community cohesion; language, culture & heritage; education & lifelong learning; rural & environmental protection & development; employment, volunteering & training; tourism & visitor economy; competitive & recreational sport & activity.

The diverse nature of Wales' culturally global outdoor community and its workforce continues to evolve apace, adapting to the changing needs of 21st-century requirements and expectations. The importance and relevance of Outdoor Alliance Wales have been brought into sharp focus in the last four years, where the interconnection of sectors the outdoor community impacts has been clearly visible.



Cynghrair Awyr Agored Cymru yn galw ar wleidyddion a gwneuthurwyr polisi i wneud y canlynol:

- Cydnabod bod cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a dysgu gydol oes yn yr awyr agored yn elfennau hanfodol o bolisiâu Llywodraeth Cymru a phleidiau gwleidyddol, gan gyfrannu tuag at greu gwaddol parhaol a chyflawni saith Nod Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol Cymru.
- Cefnogi'r maniffesto hwn drwy ymrwymo i gydweithio gyda'r sector i gyflawni'r gweithredoedd sydd wedi'u nodi.



Outdoor Alliance Wales calls for politicians and policymakers to:

- Acknowledge outdoor recreation participation and lifelong learning as essential components of Welsh Government and political party policy, contributing to creating a lasting legacy and achieving Wales' seven Well-being and Future Generation Goals.
- Support this manifesto by committing to work with the sector to deliver the identified actions.





Yr Amgylchedd

Mae dysgu a hamdden awyr agored yn ddibynnol ar amddiffyn, rheoli a gwella tirweddau ac ecosystemau bioamrywiol o safon. Yn wir mae gan y sector awyr agored rôl i'w chwarae o ran lleihau effaith ei weithgareddau a chydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddiogelu'r amgylchedd naturiol, lliniaru newid mewn hinsawdd, ac atal llygredd a cholli bioamrywiaeth.

Mae tirwedd Cymru o ansawdd uchel ac yn wledig yn bennaf. Defnyddir 78% o gyfanswm arwynebedd tir Cymru fel tir fferm / amaethyddiaeth a dynodir 26% fel tirweddau wedi'u diogelu (21 o'r 48 safle yn y DU)². I'r perwyl hwn mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflawni Cymru Natur Bositif - gan arafu a gwrthdroi colled natur erbyn 2030 ac ysgogi adfer yn unol â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, bydd angen ymrwymiad traws-lywodraethol a busnes i fuddsoddi a gweithredu'n sylweddol yn y pedair blynedd nesaf.

Environment

Outdoor learning and recreation depend upon the protection, management and enhancement of high-quality landscapes and biodiverse ecosystems. The outdoor sector has a role to play in both minimising the impact of its activities and in collaborating with key stakeholders to protect the natural environment, mitigate climate change, and prevent pollution and the loss of biodiversity.

Wales has a high-quality and predominantly rural landscape. 78% of Wales' total land area is used as farmland/agriculture, and 26% is designated as protected landscapes (21 of the 48 sites in the UK)². The Welsh Government has committed to achieving a Nature Positive Wales - halting and reversing nature loss by 2030 and driving recovery in line with the Global Biodiversity Framework. If this goal is to be achieved, a cross-governmental and business commitment to significant investment and action is required in the next four years



Yr Amgylchedd

Mae amgylchedd Cymru o dan bwysau sylweddol, ac mae angen bwrw iddi i gyflawni rhagor o gamau gweithredu yn ystod tymor hon y Senedd er mwyn blaenoriaethu a chaffael prosesau amddiffyn a rheoli ecosystemau glas a gwyrdd er lles cenedlaethau'r dyfodol.

Fe wyddom fod **angen** rhagor o gynefinoedd naturiol a rhai o ansawdd uwch yng Nghymru, ynghyd â sicrhau modd i bawb allu manteisio mwy ar ac ymgysylltu gyda'r amgylchedd naturiol.

Rydym yn galw am y canlynol:

- Gweithredu strategol, rheoleiddiol a deddfwriaethol i sicrhau bod lleiafswm o 30% o ardaloedd daearol, dŵr mewndirol ac arfordirol a morol yn cael eu diogelu erbyn 2030 yn ogystal ag adfer lleiafswm o 30% o ecosystemau wedi'u diraddio erbyn 2030.
- Rhagor o gyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn iddyn nhw fodloni eu swyddogaethau cadwraeth natur, mynediad a hamdden a rheoli llygredd.
- Diweddarau dibenion tirweddau wedi'u dynodi i hyrwyddo adfer natur a'u hariannu i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Rheoli mwy cadarn gyda gofynion newydd i gyfrannu tuag at dargedau amgylcheddol cenedlaethol.

Environment

Wales' environment is under extreme pressure, and increased action is required in this Senedd term to prioritise and resource the protection and management of blue and green ecosystems for future generations.

We know that Wales **needs** more and higher quality natural habitats, along with greater access to and engagement with the natural environment for all.

We call for:

- Strategic, regulatory and legislative action to ensure that a minimum of 30% of terrestrial, inland water, and coastal and marine areas are protected by 2030 and a minimum of 30% of degraded ecosystems are restored by 2030.
- Increased funding for Natural Resources Wales so that they can meet their nature conservation, access and recreation, and pollution control functions.
- The purposes of designated landscapes to be updated to promote nature recovery and resourced to develop and implement strengthened Management Plans with new requirements to contribute to national environmental targets.



Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mae addysg awyr agored yn ymwneud â chyfleoedd amrywiol i gyflawni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn ogystal â chynnig profiadau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae'n grymuso plant, pobl ifanc, ac oedolion i ddatblygu sgiliau bywyd, hyder, cydnherthedd ac ymdeimlad o gynefin, gan gyfrannu tuag at weithlu'r dyfodol yng Nghymru.

Er gwaethaf y manteision, mae'r modd o fanteisio ar ddysgu awyr agored yn dal yn gyfyngedig i nifer o bobl yng Nghymru:

- Mae llai na 25% o blant yn defnyddio mannau gwyrdd lleol yn rheolaidd, o'i gymharu â dros hanner yr holl oedolion yn ystod eu plentynod.
- Mae llai na 10% o blant yn chwarae mewn mannau gwylt, lleihad sylweddol o bron i 50% cenhedlaeth yn ôl.
- Wrth i 82% o blant gytuno bod natur yn rhoi boddhad iddyn nhw ac 85% yn mynegi diddordeb mewn gweithgareddau cefn gwlad, dim ond 47% sy'n cymryd rhan drwy addysg ffurfiol³.

Education & Lifelong Learning

Outdoor education encompasses diverse opportunities to deliver the four purposes of the Curriculum for Wales while offering experiences beyond the classroom. It empowers children, young people, and adults to develop life skills, confidence, resilience, and a sense of cynefin, contributing to Wales' future workforce.

Despite the benefits, access to outdoor learning remains limited for many people in Wales:

- Less than 25% of children regularly use local green spaces, compared to over half of all adults during their childhood.
- Less than 10% of children play in wild places, a significant drop from nearly 50% a generation ago.
- While 82% of children agree that nature makes them happy and 85% express interest in countryside activities, only 47% participate through formal education³.



Addysg a Dysgu Gydol Oes

Mae profiadau awyr agored yn ehangu'r gorwelion y tu hwnt i amgylcheddau dysgu traddodiadol. Dengys bod dysgu yn yr awyr agored yn effeithio'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad, iechyd, a lles pan gaiff ei gyfuno'n effeithiol â rhaglen addysg sydd wedi'i chynllunio'n drylwyr.

Rydym y credu y **dylai** dysgu awyr agored fod yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru a chyfleoedd dysgu gydol oes, y gallai pawb fanteisio arnyn nhw.

Rydym yn galw am y canlynol:

- Pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru i gymryd rhan mewn o leiaf un ymweliad preswyl wedi'i ariannu i ganolfan addysg awyr agored yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol.
- Ysgolion, colegau a phrifysgolion i gynnig cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored drwy eu cwricwla, wedi'u hategu gan gynlluniau megis y Fframwaith Dysgu Antur.
- Addysgeg dysgu awyr agored ac addysg antur i ffurfio rhan o raglenni addysg cychwynnol athrawon a'r fframwaith dysgu proffesiynol cenedlaethol.
- Ysgolion, colegau a phrifysgolion i allu manteisio ar ystod o gyfleoedd hyfforddiant dysgu awyr agored yn y fframwaith dysgu proffesiynol ar y cyd ag adnoddau canolog ar blatfformau megis Hwb.

Education & Lifelong Learning

Outdoor experiences expand horizons beyond traditional learning environments. Outdoor learning positively impacts attainment, health, and well-being when integrated effectively into a well-planned educational programme.

We believe outdoor learning **should** be an integral part of the Curriculum for Wales and lifelong learning opportunities, accessible to all.

We call for:

- Every child and young person in Wales to participate in at least one funded residential visit to an outdoor education centre during their school career.
- Schools, colleges, and universities to deliver outdoor learning experiences through their curricula, supported by schemes such as the Adventure Learning Framework.
- Outdoor learning pedagogy and adventure education to form part of initial teacher education programmes and the national professional learning framework.
- Schools, colleges, and universities to be able to access a range of outdoor learning training opportunities within the professional learning framework alongside centralised resources on platforms such as Hwb.

Iechyd a Lles

Gallai gwerth cymdeithasol posibl annog cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored hybu iechyd corfforol a meddwl, sicrhau manteision cymdeithasol ac amgylcheddol, hybu lles, datblygiad unigol, cyfiawnder cymdeithasol a chyfalaf. Am bob £1 caiff ei wario ar ymyraethau iechyd awyr agored, caiff £5.36 o werth cymdeithasol ei gynhyrchu ar gyfer rhanddeiliaid⁴.

Mae bron i 1.5 miliwn o oedolion (60%) dros eu pwysau neu'n ordew ac mae disgwyl y bydd hyn yn cynyddu i 64% erbyn 2030⁵. Mae amcan bod dros 3.2 miliwn o bobl mewn perygl cynyddol o glefyd siwgr math 2 yn y DU yn seiliedig ar lefelau siwgr yn y gwaed: gellir osgoi hyn a'i gildroi gyda diet gwell a chadw'n heini⁶. Byddai cynnydd o 10% o ran cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored ymhlith trigolion Cymru'n creu effaith gymdeithasol o £187.1m ledled yr holl feysydd iechyd⁷.

Gallai sector awyr agored medrus Cymru, ar y cyd â mudiadau eraill, Meddygon Teulu, ymarferwyr cymunedol a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol, gynnig manteision iechyd a lles sylweddol i boblogaeth Cymru drwy ddarparu rhaglenni gweithgareddau awyr agored a mentrau iechyd wedi'u presgripsiynu'n gymdeithasol. Gwelwn fod nifer o fentrau hamdden awyr agored ardderchog ledled Cymru, ond does dim llwybr pendant i weithwyr iechyd proffesiynol allu cyfeirio at y cynnig hwn.


Health & Wellbeing

The potential social value of encouraging participation in outdoor recreation includes physical and mental health, social and environmental benefits, improved mental well-being, individual development, social justice and capital. For every £1 spent on outdoor health interventions, £5.36 of social value is generated for stakeholders⁴.

Nearly 1.5 million adults (60%) are overweight or obese and this is projected to rise to 64% by 2030⁵. An estimated over 3.2 million people are at an increased risk of type 2 diabetes in the UK based on blood sugar levels; this is avoidable and reversible with improved diet and exercise⁶. A 10% increase in participation in outdoor recreation activities amongst Welsh residents would create a social impact of £187.1m across all areas of health⁷.

Wales' skilled outdoor sector can, in partnership with other organisations, GPs, community practitioners, and social care professionals, deliver significant health and well-being benefits to the population of Wales through the provision of socially prescribed programmes of outdoor activities and health initiatives. There are many excellent outdoor recreation initiatives across Wales, but there is no clear pathway for

health professionals to refer to this offer.



Iechyd a Lles

Mae gweithgareddau anturus yn fodd o achub ar gyfleoedd i gysylltu gyda natur, profi heriau personol, hybu hyder a sicrhau twf a datblygiad personol.

Fe wyddom fod cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored mewn amgylcheddau naturiol yn darparu manteision ychwanegol gan gynnwys lleihau straen a gorbryder, hybu egni a lleddfu iselder, a fydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles.

Rydym yn galw am y canlynol:

- Rhaglen genedlaethol sy'n cefnogi'r sector awyr agored yng Nghymru i sefydlu 'rhaglen cyfeirio ymarfer corff cenedlaethol' sy'n ymwneud â'r awyr agored yn benodol a chaiff ei gydnabod, ei werthfawrogi, ei ddeall, a'i bresgripsiynu gan weithwyr iechyd proffesiynol.
- Cyllidebau 'ataliol' penodol i fanteisio i'r eithaf ar gyfraniad y gallai presgripsiynu gwyrdd/glas a chymdeithasol ei gyfrannu tuag at 'Cymru iachach'. Bydd hyn yn sicrhau bod cynnal a chadw bywydau iach ac atal salwch yn rhan o gynlluniau lles ac agendâu atal Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus a Byrddau Iechyd.
- Cyfleusterau a gwasanaethau sy'n effeithio ar ardaloedd difreintiedig, pobl hŷn a'r rheiny sydd ag anableddau er mwyn sicrhau mynediad teg ledled Cymru i weithgareddau hamdden a dysgu awyr agored.

Health & Wellbeing

Adventurous activities allow the opportunity to connect with nature, experience personal challenges, improve confidence, and allow personal growth and development.

We know that being physically active outside in natural environments, provides additional benefits including reducing stress and anxiety, increasing energy and reducing depression, all having a positive impact on health and well-being.

We call for:

- A national programme that supports the outdoor sector in Wales to establish an outdoor-specific 'national exercise referral programme' that is recognised, valued, understood and prescribed by health professionals.
- Specific 'preventative' budgets to maximise the contribution that green/blue and social prescribing can contribute to 'a healthier Wales', so that maintenance of healthy lives and prevention of illness are fully embedded into Public Service Boards and Health Board well-being plans and prevention agendas.
- Facilities and services that impact upon areas of deprivation, older people and those with disabilities to enable equitable access across Wales to outdoor recreation and learning.

Yr Economi a'r Gymuned

Mae'r sector twristiaeth gweithgareddau awyr agored yn cyfrannu cyfanswm effaith net o £1.619bn pob blwyddyn ac yn cefnogi 31,278 o swyddi (21% o'r holl swyddi twristiaeth yng Nghymru)⁷. Mae ei weithlu yn gyfuniad o fasnachwyr unigol, busnesau bach a chanolig a busnesau micro yn bennaf, sy'n cynnig cynnyrch diogel, effeithiol ac unigryw Gymreig. Bydd twf cynaliadwy a pharhaus y sector awyr agored a'i weithlu'n dibynnu ar fuddsoddiad yn y sector awyr agored a'r cymunedau gwledig ac arfordirol maen nhw'n bodoli ynddyn nhw, ynghyd â mynd i'r afael a'u hanghenion ledled agenda deddfwriaethol y Llywodraeth.

Gwelwn fod poblogaeth cefn gwlad Cymru'n lleihau'n gyflym a'r ddemograffeg yn heneiddio. Gallai'r cynnydd yn y costau byw, lleihad yn y cymorth a'r buddsoddiad, cyflwyno'r rheol 182 diwrnod a'r syniad arfaethedig o godi tâl ar ymwelwyr gyfyngu twf y sector gweithgareddau hamdden awr agored.



Economy & Community

The outdoor activity tourism sector contributes a total net impact of £1.619 bn annually and supports 31,278 jobs (21% of all tourism jobs in Wales)⁷. Its workforce is primarily made up of sole traders, SMEs and micro businesses, providing safe, effective, and uniquely Welsh products. Continued sustainable growth of the outdoor sector and its workforce relies on investment into the outdoor sector and the rural & coastal communities in which they exist, as well as addressing their needs across the Government's legislative agenda.

The population of rural Wales is rapidly shrinking and demographics are ageing. The increase in the cost of living, a reduction in support and investment, the introduction of the 182-day rule and the proposed visitor levy all have the potential to limit the growth of the outdoor recreation sector.



Yr Economi a'r Gymuned

Mae sector twristiaeth gweithgareddau awyr agored yn rhan hollbwysig o economi Cymru, gan gynnig ffyniant economaidd mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru a darparu nid yn unig ar gyfer marchnadoedd y DU ond marchnad ryngwladol yn ogystal.

Fe wyddom y gallai'r sector twristiaeth gweithgareddau awyr agored gynnig ffyniant a chyfleoedd gwaith gwerth chweil ledled cefn gwlad Cymru gan yn ei dro myndroi tueddiadau i gynnal y Gymraeg a diwylliant Cymru.

Rydym yn galw am y canlynol:

- Datblygu Cynllun Gweithredu Sgiliau ar gyfer y sector twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru i gynnig cyfleoedd i fusnesau presennol yng Nghymru a busnesau bach i wella'u sgiliau busnes.
- Grymuso cymunedau Cymru drwy greu cynllun Hawl i Brynu Cymunedol, gan gynnwys tir, lle gellir dangos manteision cynaliadwy i hamdden awyr agored.
- Llwybrau cyflogadwyedd dwyieithog sy'n galluogi i bobl o bob cefndir yng Nghymru ymuno â'r diwydiant awyr agored a manteisio ar brentisiaethau addas i'w pwrpas, gyda chefnogaeth cyflogwr, dysgu pellach, gwirfoddoli a gwaith parhaus sy'n gysylltiedig â'r sector awyr agored.

Economy & Community

The outdoor activity tourism sector is a major player in the Welsh economy, providing economic prosperity in deprived areas of Wales and catering not only to UK markets but also an international market.

We know the outdoor activity tourism sector can provide prosperity and valuable employment opportunities across rural Wales thus reversing trends to maintain Welsh language and culture.

We call for:

- The development of a Skills Action Plan for the outdoor activity tourism sector in Wales to enable opportunities for existing Welsh businesses and start-ups to improve their business skills.
- The empowerment of Welsh communities by creating a Community Right to Buy scheme, including land, where sustainable benefits to outdoor recreation can be demonstrated.
- Bilingual employability pathways that allow and enable people from all backgrounds of Wales to enter the outdoor industry and access employer-backed fit-for-purpose outdoor sector-related apprenticeships, further learning, volunteering and sustained employment.

Mynediad

Mae nifer o blant Cymru'n colli'r cyfle arbennig o feithrin cysylltiad gyda'r byd naturiol gan fanteisio ar yr arfordir, y cefn gwlad a mannau glas – gan gynnwys afonydd, ogofâu, camlesi, llynnoedd a gwarchodfeydd; o ganlyniad, fel oedolion, nid oes ganddyn nhw'r parch at a'r ddealltwriaeth o bwysigrwydd natur i'r gymdeithas ddynol.

Cymru ydy un o'r gwledydd mwyaf anghysylltiedig â natur yn y byd er bod 20% o'n tir wedi'i ddynodi fel Parciau Cenedlaethol⁸. Mae mynediad i ddŵr yn wael: mae yna 10,700km o afonydd yng Nghymru y gellir eu defnyddio, ond does dim ond hawl gyhoeddus rydd i ddefnyddio 27km ohonyn nhw. Dim ond 14% o'n llwybrau yng Nghymru gellir beicio neu farchogaeth arnyn nhw'n gyfreithlon, o gymharu â 99% yn yr Alban. Does dim hawl gyfreithlon i wersylla'n wyllt unrhyw le yng Nghymru er bod hyn yn elfen annatod mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant awyr agored, gan gynnwys Gwobr Dug Caeredin a chynlluniau gwobrau Hyfforddiant Mynydd.

Access

Many of our nation's children are missing out on the pure joy of connection with the natural world via access to coast, countryside and blue spaces - including rivers, caves, canals, lakes and reservoirs; as a result, as adults, they lack respect and understanding of the importance of nature to human society.

Wales is one of the most nature-disconnected countries in the world despite 20% of our land being designated as National Parks⁸. Water-based access is poor: there are 10,700km of rivers in Wales that could be navigable, but there is only a public right of free access to 27km of them. Only 14% of our trails in Wales are legally rideable by bicycle or on horseback, compared to 99% in Scotland. There is no legal right to wild camp anywhere in Wales despite this being an integral component in outdoor education and training programmes, including the Duke of Edinburgh's Award and Mountain Training award schemes.



Mynediad

Mae mynediad teg yn allweddol i fynd i'r afael â'r datgysylltiad cynyddol rhwng poblogaeth Cymru a'i hamgylchedd naturiol, gan feithrin gwerthfawrogiad o rinweddau arbennig tirweddau a bywyd gwyllt amrywiol Cymru.

Fe wyddom fod mynediad teg, ar y cyd a chynaliadwy i'r arfordir, mannau glas a'r cefn gwlad yn hanfodol er mwyn i'r sector awyr agored gyfrannu at gynnig amgylchedd naturiol amrywiol, economïau lleol sy'n ffynnu a Chymru iachach.

Rydym yn galw am y canlynol:

- Deddfwriaeth Cymraeg olynol i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) neu bapur gwyn i gynnig mynediad gwell i natur yng Nghymru, gan sicrhau cyfleoedd gwell i bawb allu mwynhau ein harfordir, lleoedd lled-drefol, y cefn gwlad a mannau glas uwchben ac o dan y ddaear.
- Estyniad o ran mynediad ar dir cyhoeddus / cyfleustodau i ganiatáu ystod ehangach o ddefnyddwyr a chynyddu'r nifer o fannau gwyrdd a glas sy'n hygyrch i'r cyhoedd.
- Creu cyfleoedd ar gyfer gwersylla gwyllt cyfrifol yn ein parciau cenedlaethol ac ar dir cyhoeddus / cyfleustodau.
- Ymrwymiad i gyllid digonol er mwyn i Awdurdodau Lleol allu bodloni eu gofyniad statudol i gynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Access

Equitable access is key to addressing the increasing disconnect between the population of Wales and its natural environment, enabling an appreciation of the special qualities of Wales' diverse landscapes and wildlife.

We know that fair, shared and sustainable access to the coast, blue spaces and countryside is essential to enable the outdoor sector to contribute to the delivery of a diverse natural environment, thriving local economies and a healthier Wales.

We call for:

- Successor Welsh legislation to the Countryside and Rights of Way Act (CRoW) or a white paper to deliver enhanced access to nature in Wales, ensuring enhanced opportunities for all people to enjoy our coastline, peri-urban spaces, countryside and blue spaces above and below ground.
- Extension of access on public/utility land to allow for a wider range of users and increase the amount of green and blue spaces accessible to the public.
- Create opportunities for responsible wild camping in our national parks and on public/utility land.
- A commitment to sufficient funding to enable Local Authorities to meet their statutory requirement to maintain Public Rights of Ways.

Hamdden Awyr Agored Cyfrifol

Byddai mynediad i fannau gwyrdd a glas yn arwain at brofiadau cofiadwy yn yr awyr agored i bobl o bob oedran a gallu, gan newid bywydau ac effeithio'n gadarnhaol ar les ein cymdeithas. Mae ymgysylltu'n gyfrifol mewn gweithgareddau yn yr amgylchedd naturiol yn sicrhau gwerthfawrogiad o'i rinweddau esthetig a heddychlon ac yn cynnig lefelau amrywiol o antur a risg. Er mwyn sicrhau ymagwedd gyfrifol tuag at gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored, bydd angen gwneud 'penderfyniadau da' yn seiliedig ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o, a pharch tuag at yr amgylchedd a'r rheiny sy'n gweithio, yn byw ac yn chwarae yno.

Bu cynnydd aruthrol yn y nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored yn y pedair blynedd ddiwethaf, tra bod y mwyafrif yn ymddwyn yn gyfrifol, bu cynnydd o ganlyniad mewn ymddygiadau anghyfrifol gan effeithio ar yr amgylchedd a chymunedau. Wrth reswm mae rhaglenni addysg / newid ymddygiad gydag adnoddau digonol yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn deall sut i fwynhau'r awyr agored yn gyfrifol.



©Boumeniapet

Responsible Recreation

Access to green and blue space leads to memorable experiences in the outdoors for people of all ages and abilities, changing lives and impacting positively on the well-being of our society. Engaging responsibly in activities in the natural environment enables an appreciation of its aesthetic and peaceful qualities and offers varying levels of adventure and risk. A responsible approach to engaging in outdoor recreation activities requires the ability to make 'good decisions' based on an understanding and awareness of, and respect for the environment and those who work, live and play there.

There has been a significant increase in the number of people participating in outdoor recreation in the last four years, whilst the majority behave responsibly, there has been a consequent increase in irresponsible behaviours impacting the environment and communities. Well-resourced education/behaviour change programmes are essential to ensure people understand how to enjoy the outdoors safely and responsibly.



©MosaicOutdoors

Hamdden Awyr Agored Cyfrifol

Mae tirfeddianwyr, rheolwyr tir a chymunedau'n rheoli niferoedd cynyddol o ymwelwyr a'r ymddygiad anghyfrifol lleiafrif o ganlyniad; gan gynnwys aflonyddu pobl a bywyd gwyllt, taflu ysbwriel a chŵn heb eu rheoli'n ddigonol.

Fe wyddom wrth i'r nifer sy'n cymryd rhan mewn hamdden awyr agored barhau i gynyddu, mae angen cymryd camau gweithredu i ddysgu pobl sut i fwynhau'r awyr agored gan fod yn ymwybodol o a dwyn i ystyriaeth pobl a bywyd gwyllt.

Rydym yn galw am y canlynol:

- Mwy o fuddsoddiad yn y Cod Cefn Gwlad i sicrhau ei fod yn god 'addas i'w bwrpas' ar gyfer Cymru, gan hyrwyddo hamdden awyr agored cyfrifol gaiff ei dderbyn a'i unioni ledled yr holl gyrff a mudiadau perthnasol.
- Buddsoddiad mewn datblygu a hyrwyddo'r strategaeth AdventureSmart ar gyfer mwynhau hamdden awyr agored yn ddiogel i leihau'r straen sylweddol ar dimau achub gwirfoddol.
- Buddsoddiad mewn gwasanaethau mwy eang i hwyluso ymgysylltiad gyda byd naturiol Cymru a meithrin hamdden awyr agored cyfrifol a stiwardiaeth amgylcheddol.

Responsible Recreation

Landowners, land managers and communities are managing increasing numbers of visitors and the consequent irresponsible behaviours of a minority; including disturbance to people and wildlife, littering, and poorly controlled dogs.

We know that as participation in outdoor recreation continues to rise, significant action is required now to educate people in how to enjoy the outdoors with awareness and consideration for both people and wildlife.

We call for:

- Increased investment in the Countryside Code to ensure it is a 'fit-for-purpose' code for Wales, promoting responsible outdoor recreation that is accepted and aligned across all relevant bodies and organisations.
- Investment in the development and promotion of the AdventureSmart strategy for the safe enjoyment of outdoor recreation to reduce the significant strain on volunteer rescue teams.
- Investment in expanded warden services to facilitate engagement with Wales' natural world and foster responsible outdoor recreation and environmental stewardship.



Mae 50+ o fudiadau yn rhan o'r
Gynghrair Awyr Agored Cymru, a

phob un yn chwarae rhan weithgar yn hybu statws y gymuned awyr agored yng Nghymru. Yn sgil hynny mae modd iddyn nhw gyrraedd, dylanwadu ar a grymuso rhwydwaith o bobl o'r un anian i gydweithio'n agosach er mwyn mynd i'r afael â phroblemau allweddol yn y gymdeithas.

Mae Cynghrair Awyr Agored Cymru yn awyddus i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, pleidiau gwleidyddol Cymru ac aelodau Senedd Cymru i sicrhau bod modd i genedlaethau'r dyfodol barhau i fwynhau ac elwa o dirwedd, diwylliant a threftadaeth wyrdd, glas a thanddaearol naturiol rhagorol Cymru.



Outdoor Alliance Wales is made up of
50+ organisations, all of whom are

actively involved in elevating the status of the outdoor community within Wales and in doing so can reach, influence and empower a network of like-minded people to work more closely together to address key issues in society.

Outdoor Alliance Wales seeks to work closely with the Welsh Government, political parties of Wales and Members of Senedd Cymru to ensure that future generations can continue to enjoy and benefit from the outstanding natural green, blue and underground landscape, culture and heritage of Wales.





Pam mae Cymru angen Cynghrair Awyr Agored Cymru



Why Wales needs Outdoor Alliance Wales

Cynghrair Awyr Agored Cymru:

- Cynrychioli gwerthoedd ar y cyd y sector awyr agored a'r gymuned ehangach ac yn cynnig cysondeb ac eiriolaeth ar gyfer ac i'r sector awyr agored yng Nghymru.
- Darparu plattform y gallai sectorau a mudiadau allanol ymgysylltu gydag o.
- Hwyluso rhannu gwybodaeth a gweithredu fel fforwm ymgynghorol ar faterion a chyfleoedd yn y sector awyr agored.
- Cynrychioli aelodau sy'n arloesi ffyrdd newydd o gefnogi iechyd a lles ein cenedl wrth fod yn ystyriol i ddiogelu a gwella adnoddau sylfaenol ein cenedl - yr amgylchedd naturiol.

Outdoor Alliance Wales

- Represents the shared values of the outdoor sector and wider community and provides consistency and advocacy for & to the outdoor sector in Wales.
- Provides a platform with which external sectors and organisations can engage.
- Facilitates knowledge sharing and acts as an advisory forum on issues and opportunities within the outdoor sector.
- Represents members that innovate new ways to support the health and well-being of our nation whilst being considerate to protecting and enhancing the nation's basic resources - the natural environment.

Outdoor Alliance Wales members supporting this manifesto:

Adventure Activities Industry Advisory Committee / Adventure UK / Association of Heads of Outdoor Education Centres Cymru / Association of Mountaineering Instructors / Beicio Cymru; Welsh Cycling / Bike Park Wales / Black Swimming Association Cymru / British Activity Providers Association / British Caving Association QMC / British Horse Society Cymru / British Mountaineering Council / British Mountain Guides / Caving Wales / Campaign for National Parks / Cardiff Metropolitan University / Cycling UK / Duke of Edinburgh Award Cymru / Glandŵr Cymru; Canal & River Trust Wales / Institute for Outdoor Learning Cymru / Mountain Training Cymru / National Coasteering Charter / National Trust Cymru / North Wales Mountain Rescue Association / Open Spaces Society / Outdoor Education Advisors' Panel Cymru / Outdoor Industries Association / Paddle Cymru / Pembrokeshire Coastal Forum / Pembrokeshire Outdoor Charter Group / Plas Menai / Plas y Brenin / Royal National Lifeboat Institution / Royal Society for the Protection of Birds Cymru / Royal Yachting Association Cymru Wales / Ramblers Cymru / Scouts Cymru / Snowdonia-Active / South Wales Outdoor Activity Providers Group / South Wales Search & Rescue Association / Swim Wales / The Outdoor Partnership / UK MTB Trail Alliance / Urdd Gobaith Cymru / Wales Adventure Tourism Organisation / Wales Council for Outdoor Learning / Water Safety Wales / Welsh Sports Association / Welsh Triathlon Cymru / Woodland Trust / Youth Hostel Association Cymru

References

1. A decade of cuts: Impact of funding reductions for culture and sport. Welsh Parliament Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee. January 2025
2. Summary statistics for Wales 2020 -WG Statistic for Wales SRF43/2020
3. Moss, S 2015 Natural Childhood, National Trust <https://tinyurl.com/oa-manifesto-3>
4. The Outdoor Partnership: Opening Doors to the Outdoors: Social return on investment analysis. Funded through the Welsh Government Healthy and Active Fund
5. Healthy weight: Healthy Wales. Welsh Government 2019
6. <https://www.diabetes.org.uk/about-us/about-the-charity/our-strategy/statistics>
7. Economic and Social Evaluation of the Outdoor Activity Sector in Wales - Final Report. Miller Research 2023
8. <https://www.theguardian.com/environment/2022/jun/23/britain-ranks-bottom-in-europe-for-nature-connectiveness>

Photo credits: P.1- © Crown copyright (2022) Cymru Wales (paddlers), © Alun Disley (walkers); P.2 - © Emma Edwards-Jones (hands), © Andy Teasdale (child & P.4), © Ben Lawes (beach & P.9), © Karl Midlane (paddlers & P.11), © Mosaic Outdoors (map & P.15); P.3 - © Crown copyright (2022) (mountains, coasteering); P.4 - © Crown copyright (2022) (walkers, SUP); P.5 - © Emma Edwards-Jones (gorge, bryophytes); P.7 - © Ray Wood (gorge walking); P.13 - © Wirestock (feet); P.15 - © boumenjapet (cup); P.17 - © BHS (horses), © Ray Wood (climber); P.18 - © Arfon Davis (mountains)

